Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Buddsoddi Cyfalaf mewn Theatrau a Lleoliadau’r Celfyddydau Perfformio



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Buddsoddi Cyfalaf mewn Theatrau a Lleoliadau'r Celfyddydau Perfformio

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn gwahodd sefydliadau (yn benodol theatrau a lleoliadau'r celfyddydau perfformio) yng Nghymru i ymgeisio am arian cyfalaf.

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3
Beth yw prosiect cyfalaf? ........ 4
Am beth fydd y grant yn talu? ........ 5
Pwy all ymgeisio – meini prawf cymhwysedd ........ 6
Meini prawf dewis ........ 7
Y broses ymgeisio ........ 8
Hygyrchedd ........ 8
Pwy fydd yn penderfynu? ........ 8
Pa gwestiynau fydd? ........ 9
Sut i ddefnyddio templed cyllideb y prosiect ........ 11
Gwariant prosiect ........ 11
Angen cysylltu? ........ 14


## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael £1.25 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau cyfalaf mewn theatrau a lleoliadau'r celfyddydau perfformio ar gyfer 2024/25. Pwrpas yr arian yw rhoi cymorth cyfalaf pwysig drwy grantiau cynnal a chadw a/neu drawsnewidiol i sefydliadau. Gan fod yr arian gan Lywodraeth Cymru, bydd angen gorffen y prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol a bydd angen cyflwyno tystiolaeth o wariant i'r Cyngor erbyn 5 Mawrth 2025.

Wrth ymgeisio i'r gronfa rydych yn cadarnhau y byddwch yn gallu hawlio'r grant llawn erbyn 5 Mawrth 2025.

Rhaid i'r Cyngor adrodd i Lywodraeth Cymru am gynnydd y prosiectau sy'n cael arian. Bydd arian nad yw'n cael ei hawlio erbyn 5 Mawrth 2025 yn cael ei golli ac ni fyddwn yn gallu rhoi arian ichi orffen eich prosiect ar ôl y dyddiad yna. Mae'n bwysig felly eich bod yn gallu cadarnhau eich gallu i gyflawni eich prosiect yn ôl yr amserlen.

## Beth yw prosiect cyfalaf?

Yn syml, gwario arian ar asedau cyfalaf fel adeiladau ac offer. Gallwch ymgeisio i'r gronfa i brynu, uwchraddio ac adnewyddu asedau cyfalaf.

Os ydych yn ymgeisio am arian cyfalaf i wella ased presennol, rhaid ichi ddangos y bydd y buddsoddiad yn ymestyn ei oes, cynyddu ei allu neu wella ei ansawdd. Er enghraifft, os ydych yn ymgeisio am arian i brynu offer sain a goleuo newydd, dylai'r prosiect wella ansawdd y lleoliad gan gynnig profiad gwell i'r gynulleidfa a bod yn fwy deniadol i gwmni cynhyrchu. Dylech hefyd ystyried yr effaith amgylcheddol y bydd y prosiect cyfalaf yn ei chael ar eich sefydliad.

Wrth ddosbarthu'r arian, byddwn yn blaenoriaethu'r mathau canlynol o brosiectau:

**Cynnal safon isadeiledd y celfyddydau**
Rydym am helpu theatrau presennol a lleoliadau'r celfyddydau perfformio i gadw eu cyfleusterau yn rhai safonol. Mae gwella hygyrchedd i adeiladau cyhoeddus yn flaenoriaeth allweddol inni. Rydym yn awyddus i glywed am sut rydych yn gwella hygyrchedd blaen tŷ a chefn llwyfan.

**Gwella hyfywedd a chynaliadwyedd theatrau a lleoliadau'r celfyddydau perfformio**
Rydym am gefnogi mentrau cyfalaf a fydd yn helpu theatrau a lleoliadau'r celfyddydau perfformio i gynyddu incwm a lleihau costau.

**Arfogi'r celfyddydau i ffynnu**
Rydym am sicrhau bod gan theatrau a lleoliadau yr offer cywir i barhau i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn benodol, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac a fydd yn lleihau ôl troed carbon sefydliadau.

Byddwn yn defnyddio'r blaenoriaethau yma i'n helpu i benderfynu ar y ceisiadau am arian cyfalaf.

## Am beth fydd y grant yn talu?

Bydd y galw am yr arian yn uchel ac efallai na fyddwn yn gallu ariannu pob cais. Wrth gynllunio eich prosiect cyfalaf, ystyriwch beth i'w wneud os nad yw'ch cais yn llwyddo neu os bydd llai o arian na’r disgwyl.

I wneud y mwyaf o'r arian sydd ar gael, rydym yn disgwyl y bydd y mwyafrif o geisiadau dan £50,000.

Byddwch yn gallu ymgeisio dan un o'r categorïau canlynol:

- Ar gyfer ceisiadau hyd at £50,000, gallwch ymgeisio am hyd at 90% o'ch costau cymwys.
- Ar gyfer ceisiadau hyd at £250,000, gallwch ymgeisio am hyd at 75% o'ch costau cymwys.

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth o sut rydych yn ariannu o ffynonellau eraill y ganran sy'n weddill. Byddwn yn asesu lefel eich cais a’ch arian cyfatebol i weld eich gallu i gyflawni’r prosiect yn ôl yr amserlen ac yn ystod y flwyddyn ariannol.

Enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu hystyried:

- Gwella ac adnewyddu theatrau a lleoliadau’r celfyddydau perfformio presennol.
- Ailosod ac uwchraddio offer a phrynu mathau newydd o offer.
- Gwella cyfleusterau a phrynu offer a fydd yn gwella’n benodol hygyrchedd theatrau a lleoliadau neu'n cael effaith gadarnhaol ar leihau eu hôl troed carbon.

Gallwch gynnwys ffioedd proffesiynol a TAW anadferadwy (TAW na allwch ei adennill o bobl y dreth) fel rhan o gostau cymwys y prosiect. Cynhwyswch y swm net ar eich cyllideb oni bai na allwch adennill eich holl TAW. Cadarnhewch eich statws TAW gan nodi a ydych yn cynnwys TAW anadferadwy (a faint).

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau am:

- Adeiladau newydd.
- Prynu cerbydau.
- Prynu offerynnau cerdd.

## Pwy all ymgeisio – meini prawf cymhwysedd

Dim ond sefydliadau – theatrau a lleoliadau'r celfyddydau perfformio – yng Nghymru sy'n gallu ymgeisio am yr arian.

**Mae'n rhaid bod gyda chi:**

- Polisi Cyfle Cyfartal sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth.
- Cyfrif banc yn enw eich sefydliad sy'n gofyn am o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion. Am fwy o wybodaeth am gyfrifon banc ar gyfer sefydliadau, cliciwch yma.

Ni fyddwch yn gallu ymgeisio am arian os ydych yn fethdalwr inni.

Byddwn yn gofyn ichi gadarnhau bod eich sefydliad yn bodloni'r gofynion cymhwysedd yma ar ddechrau'r broses ymgeisio ar-lein.

**Hefyd rhaid ichi:**

- Gallu cynnal digwyddiad eistedd ar gyfer o leiaf 50 o bobl.
- Bod gennych hanes hysbys o lwyddo i ddarparu gweithgareddau celfyddydau perfformio ar gyfer cynulleidfa neu gyfranogwyr.
- Bod â rhaglen barhaus o ddigwyddiadau sy'n cynnwys o leiaf un digwyddiad proffesiynol y mis mewn man eistedd sy'n addas at y diben.
- Sicrhau bod yr adeilad/prosiect yn bodloni gofynion hygyrchedd y Ddeddf Cydraddoldeb.

Ni allwn gynnig arian i gyfleusterau cymunedol amlddefnydd drwy'r ffrwd ariannu yma.

**12pm hanner dydd, 24 Mai 2024** yw'r dyddiad cau ymgeisio.

Erbyn **diwedd Gorffennaf 2024** byddwn yn penderfynu ar y ceisiadau.

## Meini prawf dewis

Byddwn yn asesu ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol. Nodwch sut rydych yn eu bodloni yn eich cynnig prosiect:

- I ba raddau y mae'r cais yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac yn dangos rhesymeg glir dros y prosiect?
- Hanes hysbys o gynnal rhaglen broffesiynol o’r celfyddydau perfformio.
- Gallu i orffen y prosiect cyfalaf yn ôl yr amserlen.
- Ydy’r arian cyfatebol ar gael i ariannu eich prosiect yn llawn?
- Ydych wedi elwa yn ddiweddar o fuddsoddiad cyfalaf?

Yn ogystal â'r meini prawf dewis, bydd y panel asesu yn ystyried y lledaeniad daearyddol dros Gymru, a'r effaith y bydd y buddsoddiad yn ei gael ar y cyhoedd.

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau pe bai'r gwaith/pryniant arfaethedig yn cynyddu eich sylfaen costau heb hefyd gynyddu eich incwm. Ni ddylai’r prosiect eich gwneud yn fwy dibynnol ar arian allanol nag yr ydych ar hyn o bryd.

Byddwn yn ystyried fesul achos pa lefel o ddiogelwch sydd ei hangen (fel gorchymyn cyfreithiol neu weithred cyfamod mewn rhai achosion) gan ddibynnu ar faint y grant a'r math o brosiect.

## Y broses ymgeisio

- Rhaid ichi siarad ag un o'n swyddogion cyn cyflwyno eich cais. Gallwch gysylltu â ni: cyfalaf@celf.cymru gydag amlinelliad byr o'ch prosiect i gael y ddolen i'r ffurflen gais.
- Bydd angen ichi ddefnyddio ein porth ar-lein i ymgeisio. Os nad ydych wedi gwneud hyn eisoes, rhaid ichi gofrestru'n gyntaf. Dyma sut i'w gofrestru.
- Yn y ffurflen gais, disgrifiwch eich prosiect a chynhwyswch gyllideb sy'n amlinellu sut y byddwch yn gwario'r grant. Ar gyfer y gyllideb, defnyddiwch y templed y byddwn yn ei anfon atoch.

## Hygyrchedd

Os oes gennych anghenion hygyrchedd a'ch bod yn meddwl ymgeisio, byddwn yn gallu eich cefnogi trwy'r broses. Cysylltwch â ni neu â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth yn grantiau@celf.cymru i drafod pa gymorth hoffech ei gael.

Mae rhagor am gymorth hygyrchedd yma.

## Pwy fydd yn penderfynu?

Panel sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Celfyddydau Cymru a fydd yn gyfrifol am asesu'r ceisiadau. Bydd y panel yn gwneud argymhelliad i'n Pwyllgor Cyfalaf.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn anfon cynnig grant ffurfiol atoch gydag unrhyw amodau grant ychwanegol.

Os na fydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniad. Byddwch yn gallu trafod hyn gydag aelod o'n Tîm Cyfalaf os dymunwch.

Rydym yn ôl-dalu pob prosiect cyfalaf ar ôl derbyn anfoneb. Bydd aelod o'n Tîm Cyfalaf yn trafod y broses dalu gyda chi os ydych yn llwyddo.

## Pa gwestiynau fydd?

**1. Gwiriadau cyn ymgeisio**

Rhestr wirio cyn ymgeisio.

**2. Cysylltu â chi**

Manylion cysylltu o ran y cais, gan gynnwys eich dewis iaith a manylion eich cyfrif banc.

**3. Disgrifiwch eich prosiect**

Gwybodaeth allweddol am eich prosiect, gan gynnwys ei deitl, dyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth gyllidebol sylfaenol gan gynnwys costau cymorth hygyrchedd.

**4. Y prosiect**

Crynodeb o’r rhesymau pam y dylem ariannu eich prosiect. Beth rydych yn bwriadu ei wneud? Beth fydd yn ei gyflawni? Pam rydych am ei wneud?

Rydym yn disgwyl i'ch prosiect ateb y cwestiynau canlynol:

- Sut rydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a dewis?
- Beth rydych yn bwriadu ei wneud a pham? Oes angen eich prosiect? Ydy’r achos dros ei ariannu’n argyhoeddi?
- Sut byddwch yn sicrhau bod eich prosiect yn addas i'r diben? Fydd yn cyflawni prosiect o safon?
- Sut bydd eich prosiect o fudd i bobl, cynulleidfaoedd ac artistiaid ledled Cymru?
- Pa fesurau fydd ar waith i sicrhau hygyrchedd priodol i bobl anabl gan fodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb? Ydych wedi cynnal archwiliad hygyrchedd yn ddiweddar?
- Ydych yn gallu dangos bod eich sefydliad yn gadarn yn ariannol ac yn cael ei reoli'n dda?
- Sut byddwch yn cynllunio a rheoli'r prosiect?
- Sut byddwch yn ariannu'r prosiect?
- Sut byddwch yn rheoli'r peryglon?

Rhaid ichi hefyd gynnwys cyllideb ar ein templed cyllideb sy’n amlinellu sut byddwch yn defnyddio'r grant.

**5. Celfyddyd**

Gwybodaeth am yr ystod o weithgareddau celfyddydol a fydd yn eich prosiect.

**6. Mathau o weithgareddau**

Gwybodaeth am y mathau o weithgarwch a fydd yn eich prosiect.

**7. Targedau arfaethedig**

Gwybodaeth am eich targedau arfaethedig, gan gynnwys nifer o arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

### 8. Iaith

Yr effaith rydych yn meddwl y bydd y prosiect yn ei chael ar y Gymraeg: Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral.

### 9. Lleoliad y prosiect

Ble bydd eich gweithgarwch yn digwydd?

### 10. Gwybodaeth cydraddoldeb

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb eich prosiect.

### 11. Ailddarllen eich cais

Yma y byddwch yn gweld pob rhan o'ch cais. Gwiriwch eich cais a'i ddiweddaru os oes angen.

### 12. Gwiriad cyn cyflwyno

**Unwaith ichi glicio ar y botwm 'Nesaf' isod, ni fyddwch yn gallu golygu unrhyw wybodaeth yn yr adrannau blaenorol.**

Gwybodaeth gryno sydd yma. I newid unrhyw beth, cliciwch ar y botwm 'blaenorol' ar waelod y tudalen i ddychwelyd i'r tab adolygu.

### 13. Dogfennau ategol

Dyma'r lle i roi eich holl ddogfennau ategol (neu 'atodiadau').

Rydym wedi nodi'r atodiadau y dylech eu cyflwyno gan ddibynnu ar faint a math eich prosiect. Gallwch gynnwys dogfennau eraill i'n helpu i ddeall y prosiect.

- Cyllideb eich prosiect (ar ein templed cyllideb).
- Dyfynbrisiau cyflenwyr: rhaid cyflwyno tri dyfynbris gan wahanol gyflenwyr am bob eitem neu gasgliad o eitemau sy'n costio £2,500 neu ragor.
- Am waith sy'n werth dros £25,000, rhaid gwneud proses dendro gystadleuol agored (drwy WerthwchiGymru, fel arfer). Efallai y byddwn yn gofyn am fod yn rhan o'r broses. Os ydych eisoes wedi'i wneud, cyflwynwch adroddiad tendro priodol.

Enghreifftiau eraill o wybodaeth ategol posibl:

- Parhad o'r cynnig gwreiddiol o bosibl.
- Tystiolaeth o'r galw am eich prosiect.
- Tystiolaeth o arian partneriaeth.
- Llythyrau sy'n cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau.
- Darluniau o'r cynllun.

### 14. Datganiad a chyflwyno eich cais

Darllenwch y datganiad a chyflwynwch eich cais.

## Sut i ddefnyddio templed cyllideb y prosiect

Mae'n rhaid cyflwyno cyllideb eich prosiect ar ein templed cyllideb.

Bydd y templed yn cyfrifo is-gyfansymiau yn awtomatig ichi ac yn helpu i sicrhau bod eich cyllideb yn gytbwys ac yn mantoli. Llenwch y blychau gwyn ar y daenlen, lle bo hynny'n briodol. Os nad yw rhai ohonynt yn berthnasol i'ch prosiect, gadewch nhw’n wag. Peidiwch â newid y celloedd llwyd. Defnyddiwch bunnoedd llawn yn unig.

Dylai eich cyllideb nodi faint y bydd eich prosiect yn ei gostio (gwariant) a faint y byddwch yn ei gael i dalu amdano (incwm). Dylai'r incwm a'r gwariant ar gyfer eich prosiect mantoli (bod yn gyfartal). Ni allwn dderbyn eich cyllideb os nad yw'n mantoli, felly gwiriwch hyn yn ofalus. Rhaid ichi sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu pa ganran o'r costau cymwys y gallwch ymgeisio amdanynt. Rhaid i gyllidebau ddangos bod modd cyflawni’r prosiect yn ystod y flwyddyn ariannol.

- Ar gyfer ceisiadau hyd at £50,000, gallwch ymgeisio am hyd at 90% o'ch costau cymwys.
- Ar gyfer ceisiadau hyd at £250,000, gallwch ymgeisio am hyd at 75% o'ch costau cymwys.

## Gwariant prosiect

Defnyddiwch y templed i nodi faint y bydd eich prosiect yn ei gostio. Defnyddiwch y penawdau yno i ddangos cost yr holl eitemau y byddwch yn talu amdanynt fel rhan o'ch prosiect. Gallwch ychwanegu penawdau costau ychwanegol gan ddibynnu ar anghenion eich prosiect.

### Offer

Nodwch beth yw cost yr offer rydych am ei brynu. Dylech rannu'r gost yn eitemau neu gasgliadau. Mae casgliad yn grŵp o eitemau rydych yn bwriadu eu harchebu gan un cyflenwr. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu prynu Goleuadau Llwyfan LED gan un cyflenwr a rhywfaint o offer sain cludadwy gan un arall, bydd eich cyllideb yn edrych fel hyn:

| Offer | | |
|---|---|---|
| Offer (Eitem 1/ Casgliad 1) | Goleuadau Llwyfan LED | £1,700 |
| Offer (Eitem 2/ Casgliad 2) | Offer sain cludadwy | £3,500 |

Dylai'r gost yn eich cyllideb gyd-fynd â dyfynbrisiau y cyflenwyr.

### Gwaith adeiladu

Nodwch gyfanswm cost unrhyw waith adeiladu. Efallai y byddwch am ei rannu'n wahanol gasgliadau os byddwch yn defnyddio contractwyr gwahanol i gyflawni gwahanol elfennau. Manylwch am gostau'r adeiladu yn y gyllideb.

Os ydych yn mynd i dalu £5,000 neu ragor i unrhyw unigolyn/sefydliad/contractwr, rhaid ichi ei benodi drwy broses ddewis gystadleuol. Byddwn yn gwirio i sicrhau eich bod wedi penodi’n briodol bobl neu sefydliadau i weithio ar eich prosiect. Byddwn yn disgwyl ichi gyflwyno o leiaf dri dyfynbris gan wahanol gontractwyr.

Os ydych yn mynd i dalu £25,000 neu ragor i unrhyw unigolyn/sefydliad/contractwr, byddwn yn gofyn ichi gyflwyno adroddiad tendro sy'n nodi pam eich bod wedi dewis defnyddio'r un yna. Bydd disgwyl ichi hefyd benodi drwy broses dendro agored a dylech gael ein cymeradwyaeth ar gyfer y dogfennau tendro cyn eu hysbysebu.

Os ydych eisoes wedi cael dyfynbrisiau neu dendrau ar gyfer eich prosiect, dylech ddefnyddio'r amcangyfrifon yn sail i gyllideb eich prosiect.

Os oes angen rhagor o le arnoch, ddefnyddiwch adran 'Costau eraill' y templed i nodi costau eraill y prosiect.

### Ffioedd proffesiynol

Nodwch unrhyw ffioedd proffesiynol y byddwch yn eu talu a’u rhestru yn y gyllideb. Nodwch pam mae angen ichi dalu ffioedd proffesiynol. Os ydych yn mynd i dalu £5,000 neu ragor i unrhyw unigolyn/sefydliad, bydd angen ichi ei benodi drwy ddefnyddio proses ddewis gystadleuol. Byddwn yn gwirio i sicrhau eich bod wedi penodi’n briodol bobl neu sefydliadau i weithio gyda chi ar eich prosiect.

### Gwerth y gefnogaeth mewn nwyddau

Gall hyn gynnwys gwaith gwirfoddolwyr di-dâl a rhoddion o dir, adeiladau neu offer. Nid yw gostyngiadau gan gyflenwyr rydych hefyd yn ei dalu fel rhan o’ch prosiect yn gefnogaeth mewn nwyddau.

Cyflwynwch lythyr gyda'ch cais sy'n cadarnhau'r gefnogaeth mewn nwyddau ac sy'n dangos gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi a sut rydych wedi'i gyfrifo.

## TAW

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, dim ond TAW na allwch ei hawlio yn ôl y dylech ei chynnwys yn y gyllideb ("TAW anadferadwy"). Nodwch sut rydych wedi cyfrifo faint o TAW anadferadwy sydd yng nghyllideb eich prosiect.

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, cynhwyswch TAW yn y gyllideb. Gallwn ariannu TAW anadferadwy os ydych yn ei chynnwys yn eich cais gwreiddiol.

## Wrth gefn

Dylech gynnwys arian wrth gefn sy'n berthnasol i'r prosiect.

## Costau eraill

Nodwch unrhyw gostau eraill y bydd yn rhaid ichi eu talu fel rhan o'ch prosiect. Gall hyn gynnwys costau recriwtio, arolygon fel rhai asbestos, ffioedd cyfreithiol a thaliadau statudol.

## Incwm y prosiect

Nodwch yn y templed yr incwm y byddwch yn ei gael i dalu am y prosiect. Rhowch enw pob partner ariannu ac a yw eu cyfraniad wedi'i gadarnhau neu'n aros am benderfyniad.

## Eich arian eich hun

Os ydych yn sefydliad sy'n cael ei ariannu amlflwyddyn, nid yw hyn yn gallu dod o'ch grant refeniw.

## Incwm a enillir

Nodwch yma unrhyw incwm o incwm a enillir.

## Arian awdurdodau lleol

Dywedwch wrthym yma am unrhyw grantiau gan awdurdod lleol.

## Arian cyhoeddus arall

Nodwch yma unrhyw grantiau gan sefydliadau cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.

## Cefnogaeth mewn nwyddau

Dylai hyn fod yr un fath ag unrhyw gost mewn nwyddau a gynhwyswch yn ffigurau gwariant eich prosiect.

## Incwm arall

Nodwch yma unrhyw incwm arall y byddwch yn ei gael i dalu am eich prosiect gan gynnwys o bosibl:

- Incwm o godi arian, apeliadau cyhoeddus a rhoddion.
- Grantiau gan ddosbarthwyr loteri eraill.
- Grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.

## Angen cysylltu?

Rhaid ichi gysylltu â'r tîm cyfalaf i gael mynediad i'r ffurflen gais. E-bostiwch ni gyda chrynodeb o'ch prosiect: cyfalaf@celf.cymru

Os oes gennych unrhyw broblemau technegol gyda'r ffurflen gais neu'ch cyfrif porth, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

## Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Ffionio: 03301 242733 (ar gyfraddau lleol)
9am-5pm o ddydd Llun hyd ddydd Iau, 9am-4.30pm ddydd Gwener

Gwybodaeth am sut i gysylltu ar ein gwefan

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru

Trydar: @celf_cymru

Instagram: celfcymruarts